

# Dal a rhyddhau eog Cyfarwyddid i Bysgotwr

Mae dal a rhyddhau yn hanfodol i helpu i amddiffyn ac atgyfnerthu stoc eog yn ein hafonnydd. Rhowch y cyfle gorau posib i'r eog gyrraedd y manau claddu. Dilynnwch y cyngor yn y daflen hon.



# Tacl

Defnyddiwch fachau bach, heb adfach, sengl neu ddwbl.

- Mae'n nhw'n gwneud llai o niwed
- Mae dadfachu ynghynt
- Mae'n anghyfreithlon i ddefnyddio bachau mawr.
- Defnyddiwch faint 6 neu lai.

Defnyddiwch flaenllinyn neu lein mor gryf a phosib. Bydd hyn yn sicrhau fod y pysgodyn yn cael ei dynnu i'r rhwyd yn gyflym a diogel.



Mae eog yn aml yn cymeryd y Flying C yn ddwfn a mae dros 10% yn marw. Mae defnyddio bachyn sengl heb adfach yn helpu ond mae'n well defnyddio lith arall gyda bachau wedi eu newid neu i bysgota'r bluen.



Mae pysgota mwydym neu bry gwenwair yn aml yn lladd pysgod. Lle caniateir pysgota abwyd, mae defnyddio bachyn cylch yn lleihau'r tebygolrwydd o fachu'n ddwfn.



# Cynllunio o flaen llaw

Cyn pysgota pwll ceisiwch ganfod man addas i lanio pysgodyn heb niwed ar greigiau a cherrig. Os yn pysgota ar eich pen eich hun, ewch a rhwyd. Gall rhwydi a thyllau mawr traddodiadol hollti esgyll a

chynfonau pysgod. Gwnech yn siwr fod gennych binsiwrn trwyn hir neu offeryn tebyg i dynnu'r bachyn yn hawdd. Os ydych am dynnu llun, gwnewch yn siwr fod canamera wrth law, o amgylch eich gwddf er engrhaifft.



## Chwarae Pysgodyn

Dylid chwarae pysgod yn gyflym a chadarn fel y gallant gael eu rhyddhau cyn blino gormod.



*Rhwyd addas*

*Cynffon  
wedi hollti  
a achoswyd  
gan rwyd  
a thyllau  
mawr.*

## Glanio Pysgodyn

Rydym yn eich annog i beidio codi'r pysgodyn o'r dŵr mewn unrhyw ffordd os yn bosib. Yn bendant peidiwch a'i godi wrth ei gynffon neu ei dagell, bydd hyn yn creu niwed mewnol. Ceisiwch osgoi eu llusgo dros gerrig neu raeen.

Defnyddiwch rwyd ddi gwllwm gyda thyllau bach gyda gwaelod bas a llydan i adael i'r pysgodyn orwedd yn fflat. Mae rhwydi di gwllwm yn anghenrhaidd cyfreithiol. Mae rhwydi addas i gael o [www.fastnets.com](http://www.fastnets.com)

## Pysgota o gwch

Os yn pysgota o gwch, os yn gyfleus ewch a'r cwch i'r lan i lanio'r pysgod. Os glanir y pysgodyn mewn i'r cwch gofawrch fod y pysgodyn yn cael ei orwedd ar fan gwastad gwlyb i'w ddadfachu. Mae tywel gwlyb neu fat dadfachu yn addas i hyn. Gall dal y pysgodyn ben i waered helpu i leddfu'r pysgodyn i'w ddadfachu. Mae pysgod yn cynhyrchu y mwyafri o'i pwer drwy eu cynffon, gall dal y cynffon i lawr ar wyneb gwastad gadw y pysgodyn yn llonydd.



## Dadfachu a atgyfnerthu

Pan mae'r pysgodyn yn dawel, tynnwch y bachyn yn gyflym gyda pinsiwrn. Os ydych yn achosi gwaedlif gallwch ladd y pysgodyn.

Dylid roi cyfle i'r pysgodyn atgyfnerthu a'i ddychwelyd i ddŵr glân ond ddim i lif cyflym.

Gall hyn gymeryd tipyn o amser.

Os yw'r pysgodyn wedi ei fachu'n ddwfn, yn arbennig yn y dagell, torrwch y lein yn agos at y bachyn, bydd hyn yn achosi llai o niwed na'i dynnu.

Ceisiwch osgoi pysgota dwry gyfnodau hir o dywydd poeth.



## Cadw record o'ch dalfa

Os ydych yn codi'r pysgodyn o'r dŵr, gwnewch hynny am gyn lleied o amser a phosib.

**Ffotograffiaeth** – Cadwch y pysgodyn yn, neu ychydig bach uwchben y dŵr. Daliwch y pysgodyn yn ofalus o dan y bol a daliwch y gynffon yn llac.

**Pwysu** – Os yn bodib defnyddiwch rwyd a thafol ynddi neu bachwch dafol i rwyd gyffredin.

**Mesur** – Gwnewch hyn yn y dŵr. Defnyddiwch dâp mesur neu marciwch ar eich ffon neu ar eich gwialen.

Gellir amcangyfri pwysau o'r hyd – Gweler raddfa Asiantaeth yr Amgylchedd isod. Dylid mesur o'r trwyn i fforch y gynffon.

Hyd – (mod)	24	25	26	27	28	29	30	31	32	33	34	35	36	37	38	39	40	41	42
Pwysau – (Pwys)	5	6	6½	7½	8¼	9¼	10½	12	13	14¼	16	17	19	20¾	22½	24¼	26¾	29	31